

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 28

Key language

Passive forms of the verb - Ces i fy ngeni

Does dim ots

Byth/erioed

New Words

mwg	smoke
amddiffyniad	defence
paratoi	to prepare
trylwyr	thoroughly
amlinellu	to outline
o ddifri	serious
croes-ddweud	to contradict
hawdd	easy
gynnau	earlier on
argoeli	to bode
tanseilio	to undermine
picil	a mess
cadw'r ddesgil yn wastad	to keep both sides happy
o ddrwg i waeth	from bad to worse
braidd	rather
disgwyl	to expect/pregnant
gorfodi	to force
hunllef	nightmare
siomi	to disappoint
rhydd	free
nerth	strength
ffydd	faith
arbennig	special
llofft	bedroom
ystyried	to consider
ymlacio	to relax

Things are going from bad to worse in the Saunders household after Jenny had declined Arwyn's invitation to go for a weekend break to Venice. The fact that Arwyn's mother is still living with them has not helped matters.

Main Grammatical Points

When asked whether he smoked, Brian answers:

Rhoiais i'r gorau iddi pan gafodd Rhodri ei eni

Pan gafodd Rhodri ei eni - When Rhodri was born

The full construction is

Ces i fy ngeni	I was born
Cest ti dy eni	You were born
Cafodd Beca ei gen	Beca was born
Cafodd e/o ei eni	He was born
Cafodd hi ei gen	She was born
Cawson ni ein gen	We were born
Cawsoch chi eich gen	You were born
Cawson nhw eu gen	They were born

Question forms that are particularly useful are:

Pryd cest ti dy eni?	When were you born?
Ar ba ddyddiad cest ti dy eni?	On what day were you born?
Ble cest ti dy eni?	Where were you born?

Does dim ots

You have already come across the phrase
Does dim ots gyda fi - I don't care or I don't mind

The word ots also features when Arwyn says: Fyddai ots gyda ti - In this case it's a little more polite and means - Would you mind?

Jenny's response is: Byddai, mi fyddai ots gen i! - Yes I would mind!

Byth/Erioed

Two words that often cause some confusion for learners are 'byth' and 'erioed' meaning 'ever' or 'never'

'Byth' is normally used to refer to the present or the future while 'erioed' usually refers to events in the past

Dw i byth yn mynd i sarad â hi eto - I am never going to speak to her again.

Cymru am byth - Wales for ever.

Dw i erioed wedi gweld unrhywbeth tebyg - I've never seen anything like it.

Dydyn nhw erioed wedi gwneud - They never have.

Ysbyty Brynaber: Episode 81

Brian and Agnes are at the court - Brian thinks that everything has gone well and tells his wife not to worry.

Jenny gives Arwyn an ultimatum.

Brian calls to see Wendy and tells her that Jac Wheelan has made a mess of his evidence.

Geirfa

mwg	smoke
amddiffyniad	defence
paratoi	to prepare
trylwyr	thoroughly
amlinellu	to outline
o ddifri	serious
croes-ddweud	to contradict
hawdd	easy

Golygfa 1

Brian - Edrycha, Agnes...Cyn inni fynd i mewn i'r llys 'na...

Agnes - Beth sydd?

Brian - Dwi eisiau ffag.

Agnes - Ffag? Sigaret?

Brian - Ia...Dyna well...

Agnes - Brian, dwyt ti ddim wedi smocio ers blynyddoedd...

Brian - Rhoiais i'r gorau iddi pan gafodd Rhodri ei eni.

Agnes - Dw i'n cofio...

Brian - Achos doeddwn i ddim eisiau i fwg wneud drwg iddo fo.

Agnes - Rwyd ti'n foi mor sensitif, Brei...Dyna pam briodais i ti...

Brian - Wir?

Agnes - Ie...Dw i'n cofio Mam yn dweud wrtho i ar ddiwrnod ein priodas ni na chewn i neb gwell na ti yn y byd i gyd. Wyt ti'n nerfus?

Brian - Ychydig.

Agnes - Shwt wyt ti'n meddwl aeth hi ddoe? Yn onest?

Brian - Yn onest...Dw i'n meddwl aeth hi yn dda iawn...

Agnes - Pryd mae'r amddiffyniad yn dechrau?

Brian - Prynhawn yma ddwedodd Cathy Davies...

Agnes - Gobeitho ei bod hi wedi paratoi yn iawn.

Brian - Paid ti â phoeni dim. Mae Cathy wedi paratoi ei hachos yn hollol drylwyr...

Golygfa 2

Jenny - Beth wyt ti'n ddarllen yn y papur newydd yna?

Arwyn - Hanes achos Brian Rees, gwr Agnes...a boi arall o'r enw Jac Whelan...Edrycha ar eu lluniau nhw...Mae golwg ar y Jac Whelan yma on'd oes? Real spiv...

Jenny - Wel?

Arwyn - Wel, beth?

Jenny - Wyt ti am ddweud wrtho i beth ddigwyddodd? Neu ydw i fod i gesio?

Arwyn - Ddim lot...

Jenny - Be wyt ti'n feddwl 'ddim lot'?

Arwyn - Wnaeth ddim lot ddigwydd ddoe...Dim ond yr erlyniad yn mynd trwy'r cyhuddiadau...Yn amlinellu y cwbl...

Jenny - A beth ydy'r cyhuddiadau'n hollol?

Arwyn - 'Handling stolen goods' a 'selling stolen vehicles'

Jenny - Reit! Awn ni i'r gwaith?

Arwyn - Ddim eto.

Jenny - Ddim eto. Pam?

Arwyn - Smo Alwena Price wedi cyrradd i edrych ar ôl Mam. A dyna pam dw i eisiau gofyn ffafr...

Jenny - Pa ffafr?

Arwyn - Dwyt ti ddim yn mynd i hoffi hyn...

Jenny - Pa ffafr?

Arwyn - Ond mae'n rhaid i fi fod yn yr ysbyty am hanner awr wedi naw... Mae tests y cerebal palsy ar Martin Rubens i fod ar fy nesg i... A dw i wedi trefnu i'w weld e a'i rieni am chwarter i ddeg...

Jenny - A gad imi gesio... Ond rwyt ti eisiau imi aros yma hefo dy fam hyd nes daw Alwena Price yma?

Arwyn - Fyddai ots gyda ti?

Jenny - Byddai! Mi fyddai ots gen i, Arwyn!

Arwyn - Ond dw i'n siwr bydd Alwena yma cyn bo hir...

Jenny - Aros di amdani.

Arwyn - Alla i ddim. Fel dwedais i, mae rhaid i fi fynd i'r gwaith... Mam yn galw!

Jenny - Cer di ati.

Arwyn - Jenny, dw i'n gorfod mynd i'r gwaith. Ti ddim tan yn nes mlaen...

Jenny - Arwyn - dw i wedi cyrraedd y pen: un ai mae dy fam yn gadal y ty yma - neu rydw i'n mynd!

A dw i o ddifri tro yma. Hollol o ddifri. Felly dewis di!

Golygfa 3

Wendy - Brian - dere i mewn. Roeddet ti a Jac Whelan ar y newyddion jest nawr...

Brian - Beth oedden nhw'n ddeud amdanon ni?

Wendy - Dim lot. Dim ond dweud fod yr achos yn mynd yn ei flaen... Rwyd ti'n edrych yn shattered.

Brian - Dw i'n teimlo yn shattered. Aeth pethau ddim yn dda iawn heddiw...

Wendy - Beth ddigwyddodd 'te?

Brian - Roedd Jac Whelan yn y bocs... A gwnaeth o lanast ohoni.

Wendy - Lanast? Beth yw lanast?

Brian - Llanast. Ll. Llanast. Mess.

Wendy - Pam wnaeth e llanast 'te?

Brian - Jest deud pethau stiwpid... A croes-ddweud 'i hun... Dydy Jac heb wneud pethau'n hawdd iawn i fi 'fory...

Wendy - Drinc?

Brian - Na. Dim diolch. Dw i'n gorfod mynd draw i weld Cathy Davies....

Wendy - Nawr?

Brian - Ia. Mae hi eisiau mynd trwy cwpl o bethau...

Wendy - Fel bod ti fory ddim yn gwneud - what's the word again?

Brian - Llanast.

Wendy - Ie. Llanast.

Brian - A dweud y gwir, aeth petha mor ddrwg yn y llys heddiw fel bod Agnes ddim yn mynd i ddod yfory... Ma'r cwbl yn gwneud iddi deimlo yn sâl...

Wendy - Wyt ti eisiau i fi ddod? Fel 'moral support' i ti?

Brian - Na, paid. Gwell i ti beidio. Jest rhag ofn...

Ysbyty Brynaber: Episode 82

Arwyn and Agnes discuss the court case. Agnes says that she fears the worst for Brian. Arwyn tells Agnes about the ultimatum that he's been given by Jenny - either his mother leaves or she goes. Arwyn is asked what he intends doing.

Wendy and Brian meet at Wendy's flat where they are interrupted by a phone call from Agnes. As he leaves Wendy gives him some startling news!

Geirfa

gynnau	earlier on
argoeli	to bode
tanseilio	to undermine
picil	a mess
cadw'r ddisgl yn wastad	to keep both sides happy
o ddrwg i waeth	from bad to worse
braidd	rather
disgwyl	to expect/pregnant

Golygfa 1

Arwyn - Agnes...Sut mae heddiw?
Agnes - Arwyn. Pa hwyl?
Arwyn - Sut ma' pethau'n mynd yn y llys yna?
Agnes - Ddim yn dda o gwbl...
Arwyn - Pam 'te?
Agnes - Wyt ti wedi darllen y papurau newydd?
Arwyn - Ydw...
Agnes - Ac wyt ti wedi darllen y rhai bore 'ma?
Arwyn - Ydw. Dros frecwast gynnau...
Agnes - Dydy pethau ddim yn argoeli'n dda o gwbl i Brian. Dyna pam roeddwn i'n methu wynebu mynd i'r llys o gwbl heddiw...
Arwyn - Pam 'te?
Agnes - Wnaeth Jac Whelan gawlach o bopeth ddo'...A'r perygl mawr ydy y gall yr erlyniad droi geiriau twp Jac Whelan yn erbyn Brian a tanseilio ei amddiffyniad e...
Arwyn - Mae Brian mewn dipyn o bicil 'te.
Agnes - Mae Brian mewn lot o bicil.
Arwyn - O diar.
Agnes - Ac roedd jest meddwl am eistedd yn y llys yna yn gwylio Brian y bore 'ma yn ddigon i'n hala fi'n dost...
Agnes - A sut ma dy fam yn setlo gyda ti erbyn hyn?
Arwyn - Dyna bicil arall.
Agnes - Pam?
Arwyn - Dydy Jenny a Mam ddim yn dod ymlaen o gwbwl...
Agnes - Pam 'te?
Arwyn - Dydyn nhw erioed wedi gwneud...O'r funud wnaeth y ddwy gwrdd â'i gilydd am y tro cynta erioed...
Agnes - Clash personoliaethau ie?
Arwyn - Ie. Rhywbeth felly...Mae'r ddwy yn gallu bod mor benstiff â'i gilydd...
Agnes - Ac rwyd ti wedi dy ddal yn y canol?
Arwyn - Dyna'n gwmws ble ydw i, Agnes. Yn y canol. Rhwng y ddwy. Yn trio cadw'r ddisgl yn wastad...
Agnes - Ond?
Arwyn - Mae pethau wedi mynd o ddrwg i waeth...
Agnes - Mae'n flin gyda fi glywed...
Arwyn - Ac mae Jenny wedi rhoi rhyw fath o 'ultimatum'...Un ai mae Mam yn gadael neu mae hi'n gadael...
Agnes - O, dw i'n gweld...A beth sy'n mynd i ddigwydd 'te?
Arwyn - Dyna'r peth...Dw i ddim eisiau colli yr un o'r ddwy...Ond Jenny ydy fy ngwraig i...Hi ddylai

ddod gynta...Ac er mwyn Jenny, dw i'n credu bydd rhaid i Mam fynd nôl i'r cartref...

Golygfa 2

Brian - Mae hi'n braf ar y balconi yma...

Wendy - Fydd hi lot mwy braf yn yr haf.

Brian - Rwyf ti'n gallu ogleuo y gwanwyn rwan...Mae o ar ei ffordd...

Wendy - A poor you, Bri.....stuck in that stuffy courtroom all day....

Brian - A stuffy ydy'r gair hefyd.

Wendy - Ond aeth heddi yn O.K.?

Brian - Do, dw i'n meddwl...Na, aeth heddiw yn well na O.K... Aeth heddiw yn A1.

Wendy - Good. Pryd mae'r 'jury' mas?

Brian - Bore yfory mae'r rheithgor allan...

Wendy - Nerve wracking.

Brian - Ie, braidd...Agnes...

Wendy - Agnes?

Brian - Ia...Heia...

Agnes - Brian? Ble rwyf ti?

Brian - ...Hefo Cathy Davies...

Agnes - Pryd wyt ti'n meddwl byddi di'n cwpla?

Brian - Ymhen rhyw hanner awr i awr efallai...

Agnes - Glywais i bod heddiw wedi mynd yn dda iti.

Brian - Yn dda iawn.

Agnes - Good. Dw i'n falch o glywed...

Brian - Yn lle wyt ti rwan? Yn yr ysbty? Neu gartref?

Agnes - Gartref...Ond mae gwers nofio gan Rhodri...A dyna pam roeddwn i 'n ffono ... jest i weld ble roedd det ti ...

Brian - Wel, fel dwedais i, Agnes: fydda i nôl adref ymhen rhyw hanner awr i awr...

Agnes - A fydda i nôl am saith...iawn?

Brian - Iawn.

Agnes - A gei di ddweud hanes y llys i gyd wrtho i bryd hynny - o'r gore?

Brian - O'r gora...

Agnes - Dw i'n caru ti.

Brian - Hwyl, Agnes...

Wendy - Hasl?

Brian - Na. Oedd hi jest eisiau gwybod pryd oeddwn i'n dod adref...

Wendy - Ddaeth hi ddim i'r llys heddiw 'te?

Brian - Na. Roedd hi'n teimlo yn rhy nerfus.

Wendy - Pe bydden i'n wraig iti, Brian - fydden i wedi dod...

Brian - Gwell i fi fynd.

Wendy - Nawr?

Brian - Dw i eisiau mynd heibio'r garej ar fy ffordd adref.

Wendy - Brian?

Brian - Beth?

Wendy - Cyn iti fynd...mae' rhywbeth dwi eisiau ei ddweud wrthot ti...

Brian - Beth?

Wendy - Rhywbeth roeddwn i eisiau ddweud wrthot ti yr wythnos ddiwetha...Pan ffeinddes i mas...

Brian - Paid â dweud wrtho i...Ond rwyf ti'n disgwyl.

Wendy - Ti'n hapus? Plis gwed bod ti'n hapus.

Brian - Wyt ti? Go iawn?

Wendy - Ydw. Dw i'n disgwyl dy fabi di, Brian!

Ysbyty Brynaber: Episode 83

Agnes tells Brian that she cannot go with him to the court to hear the verdict.

Arwyn's mother has returned to the home. Jenny is preparing for a move of her own.

The verdict on Brian Rees and Jac Whelan is announced.

Geirfa

gorfodi	to force
hunllef	nightmare
siomi	to disappoint
rhydd	free
nerth	strength
ffydd	faith
arbennig	special
llofft	bedroom
ystyried	to consider
ymlacio	to relax

Golygfa 1

Agnes - Alla i ddim, Brian!

Brian - Galli, Agnes!

Agnes - Na! Plis paid â fy ngorfodi fi!

Brian - Ond ar ôl heddiw mi fydd y cwblw drosodd. Erbyn amsar cinio...Meddwl am y peth! Fydd yr hunllef yma drosodd!

Agnes - Dw i jest yn ffaelw wynebu y llys yna!

Brian - Chei di ddim dy siomi heddiw!

Agnes - Sut wyt ti'n gwbod? Sut wyt ti mor siwr?

Brian - Achos mi ddwedodd Cathy neithiwr!

Agnes - Smo Cathy yn gwybod popeth!

Brian - Mae hi'n gwybod digon i wybod fod gen i obaith cryf o gerdded yn ddyn rhydd o'r llys yna heddiw!

Agnes - Elli di ffono fi?

Brian - Tyrd hefo fi!

Agnes - Does gyda fi ddim nerth, Brian!

Brian - Wrth gwrs fod gen ti!

Agnes - Na!

Brian - Beth? Does gen ti'n digon o ffydd yno i?

Agnes - Wrth gwrs bod gyda fi ffydd ynot ti.

Brian - Dangos hynny 'te! Tyd hefo fi, Agnes!

Agnes - A beth am Jac Whelan?

Brian - Beth amdano fo?

Agnes - Ddaw e'n rhydd hefyd?

Brian - Jac? Na. Go brin. Mae o wedi gneud llanast ohoni.

Golygfa 2

Arwyn - Jenny?

Jenny - Dw i i fyny yn fan yma...Wel?

Arwyn - Wel, beth?

Jenny - Sut groeso gafodd dy fam di nôl yn y cartref?

Arwyn - Croeso arbennig iawn, chwarae teg.

Jenny - Ddwedais i on'd do? A fydd hi cymaint a hynny yn hapusach yno.

Arwyn - Ie...wel...gawn ni weld...

Jenny - A fydda inna yn hapusach yma rwan.

Arwyn - Beth yffach wyt ti'n wneud? Spring clean?

Jenny - Nage...

Arwyn - Beth 'te?
 Jenny - Symud pethau o gwmpas y llofft ydd 'ma...
 Arwyn - Pa bethe?
 Jenny - Fy mhethau i.
 Arwyn - Dy bethau di?
 Jenny - Ie...
 Arwyn - Pam? I ble ti'n eu symud nhw?
 Jenny - Dw i wrthi'n symud fy stwff i o'r llofft yna - i'r llofft yma...Wel, paid ag edrych mor syn...
 Arwyn - Rwyd ti'n symud mas o'n 'bedroom' ni?
 Jenny - Ydw. Dw i'n symud o'r llofft yna - i'r llofft yma.
 Arwyn - Pam wyt ti'n gwneud hyn?
 Jenny - Achos fy mod i eisiau.
 Arwyn - Achos dy fod ti eisiau...
 Jenny - Ie...
 Arwyn - Ond beth amdana i? Wyt ti wedi ystyried beth dw i eisiau?
 Jenny - Ydw.
 Arwyn - A?
 Jenny - Arwyn...Bydd yn onest...Pryd oedd y tro diwetha i ni garu? Neu dylwn i ddweud pryd oedd y tro diwetha roedd det ti yn gallu caru?

Golygfa 3

Agnes - Na, na! Gad fi fod nawr!
 Brian - Agnes - tyrd i eistedd draw fan hyn!
 Agnes - Jest gad fi fod am eiliad!
 Brian - Eistedd i lawr ...Ymlacia rwan...Hei, hei - tyrd ymlaen...
 Agnes - Beth sy'n mynd i ddigwydd nawr 'te?
 Brian - Yn ôl Cathy Davies mae adroddiadau yn cael eu paratoi ar gyfer y llys...
 Agnes - Ar gyfer y barnwr, wyt ti'n feddwl...
 Brian - Ar gyfer y bwrwr, ia...
 Agnes - A wedyn beth?
 Brian - Ar sail hynny, mi fydd o'n dedfrydu Jac a fi ymhen rhyw wythnos neu ddwy.
 Agnes - Chi'ch dau yn mynd i'r carchar 'te?
 Brian - Na, na...Does dim dal...
 Agnes - Ond rydych chi'n euog, Brian! Mae'r llys wedi eich cael chi'n euog!
 Brian - Do, dw i'n gwbod!
 Agnes - Ti a Jac yn mynd i'r 'jail' 'te!
 Brian - Does dim dal, Agnes...Does dim dal beth wneith ddigwydd!
 Agnes - Beth wyt ti'n feddwl 'does dim dal'? Ddwedaist ti wrtho i dy fod ti'n ddi-euog. Ddwedaist ti wrtho i byddai'r llys yn dy gael di'n ddieuog! Ond ti'n euog!
 Brian - Dw i ddim yn euog!
 Agnes - Wyt, rwyd ti, Brian Rees! Rwyd ti'n ddyn euog!

Synopsis

Jenny has sprung a surprise on Arwyn. She has decided to move to the spare bedroom to sleep.

Decision time has arrived in the Brian Rees court case. Agnes was beside herself.

Test yourself

1. What is the Welsh for 'Rhodri was born'?
 - a) Ces Rhodri ei eni
 - b) **Cafodd Rhodri ei eni**
 - c) Buodd Rhodri yn geni
2. How would you translate 'Where were you born?' into Welsh
 - a) **Ble cest ti dy eni**
 - b) Pryd cest ti dy eni
 - c) Pa fis cest ti dy eni
3. What is the word in Welsh for 'special'?
 - a) ardderchog
 - b) **arbennig**
 - c) anhygoel
4. What's the Welsh for 'to disappoint'?
 - a) sylwi
 - b) sori
 - c) **siomi**
5. How would you say 'I'm never going to win' in Welsh?
 - a) Dw i erioed wedi ennill
 - b) Dw i byth yn ennill
 - c) **Dw i byth yn mynd i ennill**
6. What is the Welsh idiom for 'keeping everyone happy'?
 - a) Cadw'r byd yn hapus
 - b) **Cadw'r ddisgl yn wastad**
 - c) Cadw'r ddisgl yn llawn